Powys NEWYDDION | NEWS

# Penodi Pennaeth ar gyfer ysgol newydd Aberhonddu

**20 Gorffennaf 2023**

Mae wedi cael ei gyhoeddi bod ysgol gynradd newydd a fydd yn agor yn ne Powys y flwyddyn nesaf wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol gyda phenodiad y pennaeth.

Penodwyd Sarah Court yn Bennaeth yr ysgol gynradd newydd yn Aberhonddu yn dilyn proses recriwtio helaeth a gafodd ei oruchwylio gan Gorff Llywodraethu Dros Dro yr ysgol.

Bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2024 yn dilyn uno Ysgol Fabanod Mount Street, Ysgol Iau Mount Street ac Ysgol Gynradd Gymunedol Cradoc fel rhan o gynlluniau Trawsnewid Addysg gan Gyngor Sir Powys.

Dechreuodd Mrs Court ei gyrfa addysgu 30 mlynedd yn ôl. Yn ystod ei hamser, datblygodd ei sgiliau addysgu ac arwain trwy amrywiaeth o rolau addysgu, uwch arwain a chynghori yn y DU a ledled y byd. Treuliodd Mrs Court sawl blwyddyn yn gweithio i'r Gwasanaeth Addysg Plant y Lluoedd Arfog Prydeinig yn yr Almaen. Mae Mrs Court yn byw ger Aberhonddu.

Ar hyn o bryd, mae Mrs Court yn arwain Tîm Grwpiau Agored i Niwed y cyngor, gan gefnogi ysgolion, disgyblion a theuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r Lluoedd Arfog.

# Headteacher appointed for new Brecon school

**20 July 2023**

A new primary school that will open in south Powys next year has reached a significant milestone with the appointment of a headteacher, it has been announced.

Sarah Court has been appointed as Headteacher for the new primary school in Brecon following an extensive recruitment process overseen by the school's Temporary Governing Body.

The new school will open in September 2024 following the merger of Mount Street Infants School, Mount Street Junior School and Cradoc C.P. school as part of Transforming Education plans by Powys County Council.

Mrs Court, who lives near Brecon, started her teaching career 30 years ago. During her time, she developed her teaching and leadership skills through a variety of teaching, senior leadership and advisory roles in the UK and around the world. Mrs Court spent several years working for Service Children's Education for the British Armed Forces in Germany.

Mrs Court currently leads the council's Vulnerable Groups Team, supporting schools, pupils and families from

Dywedodd Jess Williams, Cadeirydd y Corff Llywodraethu Dros Dro: "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi penodi Sarah yn Bennaeth ac edrychwn ymlaen at weithio gyda hi wrth i ni drosglwyddo i'r ysgol newydd."

Wrth sôn am ei phenodiad, dywedodd Mrs Court: "Mae'n anrhydedd cael fy mhenodi'n Bennaeth yr ysgol newydd hon yn Aberhonddu. Rwy'n edrych ymlaen at ddod i adnabod disgyblion, staff a rhieni a meithrin perthnasoedd newydd wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gyflawni cyfleoedd ar gyfer pob disgybl."

Dywedodd y Cynghorydd Pete Roberts, Aelod Cabinet ar gyfer Powys sy'n Dysgu: "Hoffwn longyfarch Sarah ar ei phenodiad yn Bennaeth yr ysgol newydd yn Aberhonddu. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hi wrth i ni gydweithio i wella canlyniadau i'n dysgwyr. Rwy'n dymuno'r gorau iddi hi."

Mae’r ysgol newydd yn rhan o gynlluniau cyffrous Trawsnewid Addysg ar gyfer dalgylch Aberhonddu. Bydd yr ysgol newydd yn gweithredu ar y tri safle presennol cyn symud i adeilad newydd sbon yn Aberhonddu a fydd yn darparu cyfleusterau newydd sbon ar gyfer disgyblion yr 21ain ganrif.

DIWEDD

minority ethnic and Armed Forces backgrounds.

Jess Williams, Chair of the Temporary Governing Body, said: “We are delighted to have appointed Sarah as the Headteacher and look forward to working with her as we transition to the new school.”

Commenting on her appointment, Mrs Court said: “I’m honoured to be appointed as the Headteacher for this new school in Brecon. I look forward to getting to know pupils, staff and parents and building new relationships as we work together to deliver the opportunities for all pupils.”

Cllr Pete Roberts, Cabinet Member for a Learning Powys, said: “I would like to congratulate Sarah on her appointment as Headteacher for the new school in Brecon. I look forward to working with her as we work together to improve outcomes for our learners. I wish her all the best.”

The new school is part of exciting Transforming Education plans for the Brecon catchment area.  The new school will operate on the three existing sites before moving to a brand-new building in Brecon, which will provide brand new, 21st century facilities for pupils.

ENDS

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.